

LIC / ChC	Cyfeirnod Unigryw	Cyfeirnod Adolygu	Argymhelliad	Sylwebaeth	Amserlen
LIC	1	3(i)	Dylai Llywodraeth Cymru lunio datganiad polisi tymor hir a strategaeth ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau penodol y Gweinidogion, yr adrannau, yr asiantaethau, y cyrff a noddur ac eraill o ran sicrhau cenedl iach ac egniol.	Derbyniwyd. Cyflwynwyd datganiad polisi ar 3/10/17. Mae Chwaraeon Cymru wedi lansio ymgynghoriad er mwyn datblygu gweledigaeth a strategaeth newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru fel rhan o ddarpariaeth 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol' gan Lywodraeth Cymru.	Cwblhawyd
LIC	2	3(ii) 4(i) 4(ii) 4(iv)	Dylai'r datganiad polisi a'r strategaeth wneud y canlynol: (a) datgan yn glir iawn y canlyniadau a'r cyllidebau ar y cyd a sut bydd perfformiad pob partner yn cael ei fesur. (b) esbonio pwrpas Chwaraeon Cymru a'r rôl y mae disgwyl iddo ef a'r sector chwaraeon ei chwarae er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant. (c) diffinio lle Chwaraeon Cymru yn y sbectwm gweithgarwch corfforol ac am beth fydd yn cael ei ddal yn atebol o ran y nodau llesiant. (a) edrych eto ar ei ddatganiad polisi ar chwaraeon elitaidd ar ôl cwblhau'r gwaith mae Chwaraeon Cymru wedi'i ddatgan er mwyn esbonio pam mae llwyddiant o ran medalau'n bwysig.	Derbyniwyd. Bydd Chwaraeon Cymru (ChC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn rhoi'r elfennau hyn ar waith oddi mewn i gyfres ehangach o gamau gweithredu i gefnogi 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol' a Strategaeth Gordewdra Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Darparwyd esboniad yn y datganiad Gweinidogol ar 3 Hydref 2017. Darparwyd esboniad yn y datganiad Gweinidogol ar 3 Hydref 2017. Aros am adolygiad Chwaraeon Cymru. Bydd rhywfaint o waith ychwanegol a sefydlwyd ar lefel y DU gyda phartneriaid yn sail i'r adolygiad.	Erbyn mis Mehefin 2018 Cwblhawyd Y pwrpas i'w adolygu yn unol â'r Weledigaeth newydd ac fel rhan o'r strategaeth newydd Cwblhawyd Ar ôl adolygiad Chwaraeon Cymru. Mehefin 2018
LIC	3	3(iii)	Dylai'r sectorau Chwaraeon ac Iechyd gael mandad i gydweithio'n effeithio ar fuddsoddi, ymchwil, marchnata cymdeithasol ac eirioli er mwyn cael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar lefelau gweithgarwch corfforol y boblogaeth gyfan.	Derbyniwyd. Bydd Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydweithio i roi'r elfennau hyn ar waith oddi mewn i gyfres ehangach o gamau gweithredu i gefnogi 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol'. ChC ac ICC i gyfarfod ar 17 Rhagfyr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac roedd yn un cadarnhaol iawn.	Cytuno ar Gynllun Gweithredu ar y Cyd erbyn mis Mehefin 2018

				<p>Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu ar y Cyd rhwng ChC/ICC/CNC i Weinidogion ym mis Ebrill 2018 ac yn cael ei ystyried gan eu Byrddau unigol ym mis Mai 2018.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chonffederasiwn y GIG i edrych eto ar bwrpas a rôl y Memorandwm o Ddealltwriaeth. Ymgynghorir â phartneriaid ar unrhyw berthynas neu Femorandwm o Ddealltwriaeth yn y dyfodol gydag iechyd, a'i bwrpas a'i ffocws. ChC i siarad â staff Conffederasiwn y GIG a chynnal gweithdy ar y cyd gyda'r Conffederasiwn ar esiamplau o arferion gorau mewn gweithgarwch corfforol.</p>	
ChC	4	3(i)(a-g)	<p>Mae Chwaraeon Cymru yn arwain datblygiad strategaeth newydd, tymor hir, ar gyfer chwaraeon yng Nghymru sy'n gwneud y canlynol:</p> <p>(a) ymateb i'r cyfeiriad polisi ar gyfer chwaraeon mae Llywodraeth Cymru'n ei ddatgan yng nghyd-destun ei hamcanion i greu Cymru iach ac egnïol;</p> <p>(b) mae'n seiliedig ar ymgynghori a thrafod cwbl gynhwysol a thryloyw â'r sector chwaraeon (yn ei ystyr ehangach) a sectorau a sefydliadau perthnasol eraill, gan ystyried cyfrifoldebau ehangach rhai partneriaid cyflawni.</p> <p>(c) sefydlu llinell weld glir rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a darparu chwaraeon cymunedol a chyflwyno'r llwybr chwaraeon a pherfformio;</p> <p>(d) ymgorffori chwaraeon elitaidd yn ogystal â chwaraeon cymunedol/llawr gwlad, ac esbonio'r diffiniad o lwyddiant a'i bwysigrwydd i'r agenda polisi ehangach;</p> <p>(e) mae'n gysylltiedig â strategaethau partneriaid os yw hynny'n berthnasol neu os oes canlyniadau a rennir yn bodoli;</p> <p>(f) mae'n cynnwys fframwaith canlyniadau, metrigau a pherfformiad cadarn gydag eglurder am berfformiad, a phroses fuddsoddi gwbl dryloyw.</p> <p>(g) mae'n cael ei hadolygu'n annibynnol yn achlysurol.</p>	<p>Derbyniwyd.</p> <p>Mae cynllun ymgysylltu wedi cael ei ddatblygu gydag ymgynghorwyr annibynnol a'i rannu gyda phartneriaid allweddol. Mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae llinellau amser wedi'u cytuno ac wedi'u cyhoeddi eto ar ein gwefan.</p> <p>Mae sgwrs genedlaethol wedi cael ei hagar i adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac i fynd ati i wahodd pobl Cymru i helpu i ddylanwadu ar y cyfeiriad yn y dyfodol. Mae 5 diwrnod rhanbarthol wedi'u cytuno a gwahoddiadau wedi'u hanfon at 500 o randdeiliaid.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau ar 15 Mawrth. Bydd pob elfen arall yn dilyn wrth i'r strategaeth gael ei llunio.</p> <p>Bydd y gwaith ymgysylltu (Y Sgwrs) yn sail i'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, a fydd, yn ei thro, yn sylfaen i strategaeth ChC.</p>	<p>Erbyn mis Mehefin 2018.</p> <p>Lansio'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2018.</p>

ChC	5	5(i)	Dylai Chwaraeon Cymru gwblhau a pharhau i rannu'r gwaith mae wedi'i wneud ar y nodau llesiant a'r effaith gyda'i bartneriaid.	Derbyniwyd. Mae trafodaethau â chyrrff eraill y Sector Cyhoeddus yn parhau ac yn gadarnhaol. ChC i hwyluso trafodaeth gyda Fforwm Prif Weithredwyr y Cyrff Rheoli Cenedlaethol ar beth fyddai fwyaf buddiol i bartneriaid.	Parhaus
ChC	6	5(iii) 5(v) 5(ii) 5(vi)	Dylid ymgorffori'r canlyniadau llesiant a'r dulliau gweithio ym mhob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei strategaeth / strategaethau a'i gynlluniau busnes ac: (a) wrth ddiffinio ei nodau llesiant, dylai Chwaraeon Cymru ddatgan y partneriaid sy'n allweddol i'w cyflawni, ble gellir eu hintegreiddio i gyflawni canlyniadau ychwanegol a phwy sy'n atebol am eu cyflawni. (b) dylai Chwaraeon Cymru ddarparu rhywfaint o arweiniad i'r sector drwy hwyluso trafodaethau i ddatgan y ffocws ar gyfer buddsoddiadau ac ymdrechion y sector a ble ceir partneriaid mewn sectorau eraill y dylent geisio cydweithio â hwy. (c) cyn belled ag y bo hynny'n bosib, dylai Chwaraeon Cymru weithio gyda chyrrff eraill y sector cyhoeddus, fel lechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn datblygu nodau a mesurau effaith ar y cyd os yw hynny'n briodol.	Derbyniwyd. Mae'r rhain yn cael sylw fel rhan o'r Sgwrs Genedlaethol a thrwy ddatblygu cytundeb yn y dyfodol rhwng ICC / CNC a ChC. Cyfarfodydd rhwng ChC, ICC a CNC wedi'u trefnu.	Parhaus
ChC	7	5(iv) a 6(v)	Dylid datblygu adnoddau asesu er mwyn mesur effaith y sector a'r elw cymdeithasol ar fuddsoddiad a dylai hyn fod yn rhan o'r gwerthusiad o'r cynnydd tuag at y nodau llesiant a osodir gan Chwaraeon Cymru iddo'i hun.	Derbyniwyd. Bydd fframwaith effaith a gwerthuso'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r fframwaith canlyniadau. Bydd ChC yn trafod â LIC sut gellir arwain hyn ar draws y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniant.	Mehafin 2018
ChC	8	5(vii)	Dylai Chwaraeon Cymru geisio cyfrwng effeithiol ac effeithlon ar gyfer deall, rhannu a dylanwadu ar nodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyfleoedd ymgysylltu partner â Chyrrff Rheoli Cenedlaethol ac eraill.	Derbyniwyd mewn Egwyddor. Mae system yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru'n gallu ymateb i ymgynghoriad Cynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae ChC yn rhoi adborth fel rhan o'r ymgynghoriad ar gynlluniau'r Byrddau. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r Byrddau fel rhan o ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd ChC.	Cwblhawyd - system yn ei lle o fis Ionawr 2018 ymlaen
LIC	9	6(iv)	Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: (a) darparu cyllideb tymor hir fel bod Chwaraeon Cymru yn	Derbyniwyd. Cyhoeddwyd cyllidebau 2 flynedd ar gyfer 18/19 a	Cwblhawyd

		6(i) 6(iii)	gallu cynllunio ei fuddsoddiadau a'i weithgareddau'n strategol er mwyn cyflawni'r nodau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. (b) cyhoeddi'r Llythyr Cylch Gwaith yn brydlon er mwyn sicrhau proses gydamserol o gynllunio cyllideb. (a) cynnwys fframwaith canlyniadau a dangosyddion perfformiad yn y Llythyr Cylch Gwaith er mwyn sicrhau rheolaeth fwy ystyrlon ar berfformiad Chwaraeon Cymru yn erbyn nodau llesiant penodol i sector ac integredig.	19/20 Cyhoeddwyd y Llythyr Cylch Gwaith ar 9 Chwefror 2018 ac mae'n gylch gwaith am Dymor y Llywodraeth. Bydd Chwaraeon Cymru (ChC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn rhoi'r elfennau hyn ar waith oddi mewn i gyfres ehangach o gamau gweithredu i gefnogi 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol' a Strategaeth Gordewdra Llywodraeth Cymru.	Cwblhawyd Parhaus
ChC	10	6(ii) 6(vi) 6(vii) 6(viii)	Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol: (a) sicrhau bod ei Gynllun Busnes yn adlewyrchu ac yn adrodd yn ôl yn briodol yn erbyn cynnwys y Llythyr Cylch Gwaith a dylai ei gyhoeddi a'i rannu gyda'i bartneriaid. (b) ystyried dull cyllido mwy hyblyg a chymysg i sicrhau creadigrwydd, arloesi a datrysiadau penodol i gampau neu'n seiliedig ar anghenion lleol. (c) sefydlu cytundeb rhwng Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru o ran pwy sy'n arwain y rhaglen masnacheiddio ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol. (d) mabwysiadu dull mwy tryloyw o werthuso rhaglenni ac ystyried gwerth cyfraniad academiaidd gan y Sector Addysg Uwch fel sail i'w strategaeth ymchwil a gwerthuso.	Derbyniwyd. Bydd y Cynllun Busnes yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd dolen yn cael ei hanfon at bob rhanddeiliad allweddol ar gyfer ei weld. Fel rhan o'r ffyrdd newydd o weithio, bydd ChC yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut orau i gynnwys partneriaid yn y gwerthusiad adolygu parhaus a datblygiad y strategaeth tymor hir, a datblygiad y cynllun busnes yn flynyddol. Y dull cyllido i gael ei ystyried fel rhan o Y Sgwrs ac egwyddorion buddsoddi dilynol wedi'u diweddarau. Mae ChC a Chymdeithas Chwaraeon Cymru yn gweithio ar esbonio rôl y naill ar llall. Cytunir ar eu rôl bresennol fel rhan o gyllid 18-19 gyda thrafod parhaus fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd. Yn dilyn trafod cychwynnol a chyflwyniad gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru, bu i banel, yn cynnwys swyddogion ChC a LIC, ac aelod annibynnol, graffu ar Gynllun Cadernid Cymdeithas Chwaraeon Cymru a chyflwyno argymhellion i ChC a LIC. O ganlyniad, rhaid sefydlu prosesu gaffael ffurfiol. Bydd gwerthuso'n cael ei ystyried fel rhan o Y Sgwrs a Strategaeth Gorfforaethol ddilynol ChC.	Cwblhawyd Parhaus Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC* Dyddiad adolygedig Hydref 18 Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC*

LIC & ChC	11	6(ix)	Dylai'r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol gael ystyriaeth bellach gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn.	Derbyniwyd. Yn dilyn adolygiad ac ystyriaeth bellach a newidiadau dilynol, mae ChC a LIC wedi cytuno i symud i gam cyntaf y strategaeth gaffael (h.y. y Cam Ymgysylltu) yng Ngogledd Cymru. Yn unol â hynny, cyhoeddwyd dogfen Mynegi Diddordeb ym mis Mai 2018, gyda dyddiad cyflwyno ganol mis Mehefin. Trefnwyd y caffael ail gam i ddechrau ddiwedd Awst tan fis Tachwedd. Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â LIC	Parhaus
ChC	12	7(i) 7(iii) 7(v)	Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol: (a) ystyried sut orau i reoli ei berthnasoedd â Chyrff Rheoli Cenedlaethol ac awdurdodau lleol fel bod y lefel o wirio a herio'n briodol ac yn gytbwys â darparu cyngor a gwerth ychwanegol. (b) ystyried mabwysiadu perthynas ffurfiol gydag AB ac AU ar gyfer casglu gwybodaeth, comisiynu ymchwil a thrafod meysydd ar gyfer cydweithredu. (c) comisiynu arolwg annibynnol ar bartneriaid a rhanddeiliaid ar gyfer ei ystyried gan y Bwrdd, a dylid rhannu'r canlyniadau gyda'r Adran nawdd fel rhan o'r broses o reoli perfformiad.	Derbyniwyd. Bydd yn cael sylw fel rhan o Y Sgwrs a'r strategaeth gorfforaethol newydd o ganlyniad. Gweithredir hyn fel rhan o'r ffyrdd o weithio a'r cynllun strategol newydd a chynllun polisi a gwybodaeth adolygedig o dan arweiniad y ddau Bennaeth Gwasanaeth newydd. Bydd arolwg annibynnol ar Chwaraeon Cymru yn cynnwys partneriaid wrth gael ei greu a bydd pob canfyddiad yn cael ei rannu'n gyhoeddus.	Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC*
ChC	13	7(ii)	Wrth ddatblygu mentrau neu ddulliau newydd o weithio, dylai Chwaraeon Cymru gynnwys partneriaid o'r dechrau a mabwysiadu proses dryloyw lle mae eu barn yn cael ei hystyried a derbyn adborth.	Derbyniwyd. Mae adolygiadau'r Fenter Nofio Am Ddim a'r Rhaglen Pobl Ifanc yn esiampl dda o hyn ar waith. Rhagor o esiamplau drwy 'Ddull Model Gweithredu Newydd' y CRhC – DPA/Strategaeth, Llywodraethu a Chydweithredu. <i>"Ffyrdd o weithio gyda phartneriaid"</i> i ystyried hyn. Caiff sylw yn ystod Y Sgwrs a bydd yn rhan o Strategaeth newydd Chwaraeon Cymru.	Cwblhawyd Parhaus Parhaus
LIC a	14	7(iv)	Dylai Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ystyried rôl	Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn	

ChC			Cymdeithas Chwaraeon Cymru mewn cefnogi Cyrff Rheoli Cenedlaethol a pha lwybrau sy'n bodoli iddynt dderbyn cyllid i gynnal eu gweithgareddau a'u hehangu os oes angen a gydnabyddir.	derbyn y dylai rôl Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn y dyfodol gael ei hystyried. Mae trafod parhaus rhwng Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru ynghylch y rhaglen cadernid (gweler Cyf. Adolygu 6(vii) uchod). Rhaid i drafodaethau gyda Chymdeithas Chwaraeon Cymru barhau ochr yn ochr â datblygu strategaeth ChC.	Hydref 2018 Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC*
ChC	15	8(i) 8(ii) a (vi) 8(iii)	Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol: (a) datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n datgan rhai egwyddorion arweiniol ar gyfer sut bydd yn ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid ac yn gwrandao arnynt, ac yn rhannu gwybodaeth â hwy ac yn rhoi adborth iddynt. (b) datblygu cyfrwng i dderbyn syniadau a gwybodaeth newydd o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. (a) chwilio am gyfleoedd i hybu llwyddiannau a chyflawniadau partneriaid.	Derbyniwyd. Ymgynghorir â phartneriaid ar hyn fel rhan o ddatblygu'r " <i>ffyrdd newydd o weithio gyda phartneriaid</i> ," a fydd yn rhan o'r strategaeth newydd.	Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC*
ChC	16	8(iv)	Dylid ystyried hyfforddiant a datblygiad mewnol fel rhan o'r contract wrth ddod ag ymgynghorwyr allanol i mewn ar gyfer prosiectau arbennig.	Derbyniwyd. I'w ymgorffori yn yr opsiynau contract yn y dyfodol. Ar gyfer y prosiect CSAP, penodwyd rheolwr prosiect mewnol ym mis Ebrill 2018. Bydd yn gweithio'n agos â'r ymgynghorwyr allanol ac yn derbyn yr hyfforddiant mewnol gan yr ymgynghorwyr.	Cwblhawyd
ChC	17	8(v)(a-c)	Dylid ystyried cynyddu gallu ac arferion cydweithredu tîm Gwybodaeth Chwaraeon Cymru: (a) Darparu cefnogaeth ymchwil, tystiolaeth a gwerthuso i gydweithwyr fel sail i ddatblygu rhaglenni a mentrau Chwaraeon Cymru. (b) Cefnogi partneriaid i ddadansoddi data arolygon i ddeall effaith leol eu gweithgareddau ac i rannu'r dysgu ar draws y sector. (a) Datblygu partneriaeth gyda'r sector AB ac AU i gomisiynu a dosbarthu canfyddiadau prosiectau ymchwil ac i gydlynu gwasanaeth ymchwil fel sail i ddatblygu polisïau.	Derbyniwyd mewn Egwyddor. I'w ystyried fel rhan o strategaeth newydd ChC, yn dilyn dealltwriaeth well o ofynion ac anghenion. Mae adnodd wedi cael ei ychwanegu at y tîm i gryfhau'r maes hwn.	Cwblhau yn unol â datblygu Strategaeth ChC*
ChC	18	8(ix)	Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol: (a) datblygu strwythurau staffio sy'n ystyried sut orau i reoli her	Derbyniwyd mewn Egwyddor.	Ar ôl Medi 2018

		8(vii) 8(viii)	cydymffurfiaeth ac atebolrwydd cyhoeddus yn erbyn cyfraniad arbenigol. (b) trafod a chytuno ar ganlyniadau matrices sgiliau'r staff a'r camau gweithredu arfaethedig i roi sylw i unrhyw fylchau cyn gynted â phosib, a gweithredu proses rheoli perfformiad gadarn. ystyried unrhyw fylchau a ddatgelir gan fatrics sgiliau'r aelodau presennol ar gyfer unrhyw benodiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol.	Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i ystyried opsiynau posib. Wrth i swyddi gwag ddod ar gael, ystyrir matrices sgiliau'r staff gyda'r nod o greu amrywiaeth yn ein gweithlu. Bydd hyn yn cael ei ystyried hefyd ar ôl cyhoeddi strategaeth Gorfforaethol newydd ChC ac wrth i lefydd gwag ddod ar gael ar y Bwrdd.	
ChC	19	9(i) 9(iii) 9(iv)	Dylai Chwaraeon Cymru wneud y canlynol: (a) ystyried sefydlu swyddogaeth ganolog ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth, arferion da a dysgu ar draws y sefydliad a gyda phartneriaid. (b) edrych ar werth 'seinfwrdd' neu grŵp cynghori annibynnol i wella swyddogaeth gwybodaeth y sefydliad. (c) ystyried datblygu llwyfan ar gyfer cyfnewid arferion da, arloesi a datrysiadau creadigol gyda Chynghorau Chwaraeon eraill a sefydliadau tebyg y tu allan i'r DU lle mae'r swyddogaethau a'r amcanion yn debyg. (a)	Derbyniwyd mewn Egwyddor. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn fanylach ar ôl cyhoeddi strategaeth gorfforaethol newydd ChC a gyda dealltwriaeth well o ofynion ac anghenion partneriaid. Mae ChC yn profi 'seinfwrdd' annibynnol fel rhan o Y Sgwrs. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r ffyrdd o weithio a'r cynlluniau cyfathrebu a gwybodaeth newydd. Eisoes yn weithredol gyda phartneriaid yn y DU a phartneriaid rhyngwladol.	Ar ôl Medi 2018
ChC	20	9(ii)	Dylid cofnodi gwybodaeth a phrofiad yr holl staff a'r partneriaid a'u rhannu lle byddai'r dysgu a'r llwyddiannau o fudd i eraill. Dylid newid blaenoriaeth o ran rôl gwerth ychwanegol Chwaraeon Cymru wrth symud ymlaen.	Derbyniwyd. Bydd yn cael sylw fel rhan o Y Sgwrs a'r strategaeth gorfforaethol newydd o ganlyniad, gydag opsiynau a chyfryngau amrywiol yn cael eu hystyried. Bydd eglurder rôl a phwrpas ChC yn cael eu cynnwys yn y strategaeth newydd a'u hystyried gyda phartneriaid.	Ebrill a Medi 2018

Meysydd ar gyfer Ymchwil neu Ymchwiliad Pellach					
LIC / ChC	Cyfeirnod Unigryw	Cyfeirnod Adolygu	Argymhelliad	Sylwebaeth	Amserlen
LIC a ChC	21	12.2 – 12.4	<p>Canolfannau Cenedlaethol Chwaraeon Cymru Mae rôl a phwrpas dwy ganolfan genedlaethol Chwaraeon Cymru yn y dyfodol yn gwestiwn sydd angen sylw yng nghyd-destun eu dibenion elusennol, y newidiadau i'r tirlun cyfleusterau ers eu hadeiladu, y cymhorthdal cost parhaus sy'n ofynnol ar gyfer eu cynnal a'u cadw a datblygiad y sectorau Addysg Bellach ac Uwch fel darparwyr ymchwil a gwasanaethau chwaraeon elitaidd.</p> <p>Plas Menai Dylid ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer rheoli'r cyfleuster yn y dyfodol ond nid cyn cytuno ar ei bwrpas a'i swyddogaeth fel ased gan Chwaraeon Cymru yng nghyd-destun cyfeiriad strategol y sefydliad a'r effaith a'r canlyniadau disgwyledig.</p> <p>Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru Eto dylid ystyried pwrpas a rôl y cyfleuster yng nghyd-destun cyfeiriad strategol Chwaraeon Cymru a'i effaith a'i ganlyniadau disgwyledig. Os yw'r sefydliad am barhau i ddarparu gwasanaethau cefnogi elitaidd i athletwyr, bydd rhaid wrth fuddsoddiad pellach neu geisio partneriaeth gyda'r sector Addysg neu Fasnachol.</p>	<p>Derbyniwyd. Bydd adolygu strategaeth gorfforaethol ChC yn penderfynu ar rôl y ddwy ganolfan yn y dyfodol. Bydd adolygiad LIC o gyfleusterau'n cyfrannu hefyd.</p> <p>Cynhaliwyd arolwg Cyflwr Adeiladau ar gyfer y ddwy ganolfan yn gynnar yn 2018. Derbyniwyd yr adroddiadau terfynol ym mis Mai 2018.</p> <p>Cylch gorchwyl ar gyfer penodi ymgynghorwyr allanol i adolygu modelau gweithredu yn y dyfodol yn cael ei lunio ym mis Gorffennaf 2018.</p> <p>Mae'r Bwrdd wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Prosiect i oruchwyllo'r broses adolygu. Bydd y Bwrdd Prosiect yn dechrau ym mis Medi 2018.</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2018</p>
LIC a ChC		12.5	<p>Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Roedd y tirlun cyfleusterau sy'n newid yn broblem a phryder i lawer o'r cyfranwyr at yr adolygiad hwn ac awgrymodd rhai y dylai Chwaraeon Cymru chwarae rhan amlycach o ran eirioli a darparu datrysiadau. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru ac rydym yn awgrymu ei bod yn ystyried y sylwadau / awgrymiadau canlynol sydd wedi codi o'n hadolygiad:</p>	<p>Derbyniwyd. Y materion hyn i gael sylw fel rhan o adolygiad LIC o gyfleusterau.</p> <p>Cefnogaeth arwyddocaol a pharhaus yn cael ei darparu i gefnogi'r adolygiadau o gyfleusterau chwaraeon sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru.</p>	Parhaus

			<p>(i) Nid yw'n gynaliadwy i glybiau chwaraeon sy'n agos at glybiau eraill gael eu cyfleusterau eu hunain a dylid newid at greu gofod hyblyg i glybiau allu rhannu adnoddau.</p> <p>(ii) Mae Llywodraeth Cymru angen dull mwy tryloyw a chydweithredol o weithio a dylai ei phartneriaid, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, fuddsoddi'n strategol mewn cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n bodloni'r galw, yn ymarferol ac yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn rhoi sylw i anghydraddoldeb iechyd mewn cymunedau.</p> <p>(iii) Rhaid i'r adolygiad cyfleusterau esbonio a yw cynnal digwyddiad aml-chwaraeon fel Gemau'r Gymanwlad yn uchelgais realistig.</p> <p>(iv) Nid oedd y cyswllt rhwng chwaraeon a chystadlaethau chwaraeon mawr a'r rôl mae'r olaf yn ei chwarae mewn hybu, annog a hwyluso cyfranogiad yn glir. Roedd angen rhesymeg gliriach dros fuddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr.</p>	<p>Bas data Cyfleusterau Chwaraeon a phorthol ar-lein ar gyfer partneriaid yn cael eu datblygu gan Chwaraeon Cymru.</p> <p>Mae trafodaethau gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol / Awdurdodau Lleol ynghylch modelau hwb clwb yn cael sylw fel rhan o <i>Y Sgwrs Genedlaethol</i>.</p> <p>Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a sut gellir rhannu / gweithredu arferion gorau ledled Cymru.</p>	
LIC		12.6	<p>Adolygiad Achlysurol o Chwaraeon Cymru Dylai swyddogaeth a ffurf Chwaraeon Cymru gael eu hadolygu'n achlysurol.</p>	<p>Derbyniwyd. Ystyrir hyn yng nghyd-destun y ddogfen Fframwaith gyda LIC.</p>	Parhaus

*Bwrdd Chwaraeon Cymru ym mis Medi i ystyried amserlen fanwl ar gyfer cwblhau'r Cynllun Strategol.